Rhif: WG35204

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Newidiadau i Gymwysterau Gwaith Stryd

Newidiadau i Hyfforddi ac Achredu Gweithredwyr a Goruchwylwyr Gwaith Stryd yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 2 Gorffennaf 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 25 Medi 2018

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ffordd a Gwaith Stryd yng Nghymru a oedd yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer adolygu'r modd y rheolir gwaith ffordd a gwaith stryd.<br><br>Un o'r ymrwymiadau allweddol yw'r un i adolygu'r drefn hyfforddiant a chymwysterau ar gyfer gweithwyr ffordd er mwyn sicrhau bod y safonau hyfforddi uchaf yn cael eu cynnal yng Nghymru. Mae hyfforddiant a phrofiad gweithwyr ffordd yn cael effaith uniongyrchol ar ddiogelwch a rheoli gwaith ffyrdd a gwaith stryd sy'n digwydd ar y rhwydwaith ffyrdd.<br><br>Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi dull gweithredu ar gyfer gwella'r gofynion hyfforddi'n sylweddol ac adolygu'r rheoliadau ar gyfer hyfforddiant ac achrediad |
| **Sut i ymateb** | Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw **25 Medi 2018** Gallwch ymateb mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol: |
| **Drwy Radbost:** | Ben Beachell<br>Trafnidiaeth<br>Llywodraeth Cymru<br>RHADBOST<br>Sarn Mynach<br>Cyffordd Llandudno<br>LL31 9RZ<br><br>CymwysterauGwaithStryd.StreetWorksQualifications@llyw.cymru |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>https://beta.llyw.cymru/dull-gweithredu-cenedlaethol-ar-gyfer-gwaith-ffordd-gwaith-stryd |
| **Manylion Cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br>Enw: Ben Beachell<br><br>Cyfeiriad: Trafnidiaeth<br>Llywodraeth Cymru<br>Sarn Mynach<br>Cyffordd Llandudno<br>Ll31 9RZ<br><br>E-bost: ben.beachell@gov.wales<br><br>Rhif ffôn: 0300 062 5432 |

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achredig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

**Y Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ffordd a Gwaith Stryd yng Nghymru**

Fe ryddhaodd Llywodraeth Cymru y Dull Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ffordd a Gwaith Stryd yng Nghymru ym mis Mehefin 2016 i nodi rhaglen ar gyfer gweithredu gwelliannau yng Nghymru.

Un o'r meysydd allweddol a nodwyd oedd yr adolygiad o'r trefniadau hyfforddi ac achredu presennol yng Nghymru.

Dylai unrhyw un sy'n gweithio ar y priffyrdd fod â chymwysterau digonol a bod yn ddigon cymwys i sicrhau diogelwch y gweithlu a'r cyhoedd sy'n teithio wrth wneud gwaith ffordd neu waith stryd. O dan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, rhaid i'r gwaith o osod, adnewyddu, cynnal a chadw ac archwilio cyfarpar tanddaearol mewn unrhyw stryd neu ffordd gael ei wneud gan staff cymwys a hyfforddedig.

Mae hyfforddi ac achredu gweithredwyr a goruchwylwyr gwaith stryd wedi'i gynnwys yn adran 67 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 sy'n gosod dyletswydd ar ymgymerwyr i sicrhau bod y modd y caiff y gwaith ei gyflawni'n cael ei oruchwylio gan rywun sydd â chymhwyster rhagnodedig fel goruchwylydd a bod rhywun sydd â chymhwyster rhagnodedig fel gweithredydd hyfforddedig yn bresennol ar y safle drwy'r amser pan fo gwaith o'r fath ar y gweill, ac eithrio mewn mathau penodol o achosion a ragnodir.

Mae Rheoliadau Gwaith Stryd (Cymwysterau Goruchwylwyr a Gweithredwyr) 1992 ("Rheoliadau 1992") sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cymeradwyo cyrff sy'n rhoi cymwysterau (a thynnu cymeradwyaeth o'r fath yn ôl), a'r amgylchiadau lle gellir rhoi cymhwyster (dan adran 67 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991) yn berthnasol yng Nghymru.

Cafodd Rheoliadau 1992 mewn perthynas â chymwysterau gweithredwyr a goruchwylwyr eu gwneud ym 1992 a chawsant eu tynnu'n ôl a'u disodli mewn perthynas â Lloegr yn 2009 ac yna'u diwygio yn 2015[1]. Wedyn cafodd y Rheoliadau a gyflwynwyd ar gyfer Lloegr yn 2009 eu diddymu a'u disodli yn 2016 gan Reoliadau Gwaith Stryd (Cymwysterau Gweithredwyr a Goruchwylwyr) (Lloegr) 2016. Cafodd rheoliadau ar gyfer yr Alban yn unig eu gwneud yn wreiddiol ym 1992[2] a chafodd y rhain eu diddymu a'u disodli gan Reoliadau Gwaith Ffordd (Cymwysterau Gweithredwyr a Goruchwylwyr (Yr Alban) 2017.

**Beth yw'r prif faterion?**

**Y broses hyfforddi ac achredu**.

Caiff y strwythur a'r broses ar gyfer hyfforddiant a chael achrediad eu nodi isod.

Mae pedair haen sylfaenol yn yr hierarchaeth hyfforddi ac achredu; Corff Cofrestru, Corff Cymeradwy, Canolfan Asesu ac Ymgeisydd. Ar gyfer y DU gyfan mae un Corff

---

[1] The Street Works (Qualifications of Supervisors and Operatives) (England) Regulations 2009, the Street Works (Qualifications of Supervisors and Operatives) (England) (Amendment) Regulations 2015

[2] Road Works (Qualifications of Supervisors and Operatives) (Scotland) Regulations 1992

Cofrestru, ychydig o Gyrff Cymeradwy, nifer o Ganolfannau Asesu a miloedd o Ymgeiswyr.

Gall ymgeiswyr gael hyfforddiant fel gweithredwyr, goruchwylwyr, neu'r ddau. Mae'r cynigion hyn yn berthnasol i weithredwyr a goruchwylwyr.

Mae'r holl ganolfannau asesu wedi'u cymeradwyo gan gyrff cymeradwy sy'n gosod safonau hyfforddi ac asesu i ganolfannau asesu gydymffurfio â hwy.

Ar gyfer gweithredwyr mae Rheoliadau 1992 yn rhagnodi 9 Uned Gymhwysedd wahanol (neu fodiwl hyfforddi gwahanol) a 5 cymhwyster. Mae pob uned yn ymdrin â gweithgaredd penodol ac mae'r cymwysterau'n cynnwys cyfuniadau amrywiol o'r unedau. I oruchwylwyr mae 8 Uned Gymhwysedd a 5 cymhwyster.

Byddai ymgeisydd sy'n dymuno ennill ardystiad mewn agweddau ar waith stryd yn mynychu canolfan asesu gymeradwy i gael hyfforddiant yn yr unedau y mae'r cymhwyster hwnnw'n eu cynnwys. Wedyn byddai'r ymgeisydd yn sefyll ei arholiadau yn y ganolfan asesu.

Os yw'r ymgeisydd yn llwyddiannus mae'r ganolfan asesu'n gofyn i'r corff cofrestru osod ei dystysgrif cymhwysedd ar y Gofrestr Cymwysterau Gwaith Stryd a hefyd yn hysbysu'r corff cymeradwy ynghylch y canlyniad.

Mae'r corff cymeradwy'n dyfarnu'r dystysgrif i'r ymgeisydd ac yn cadarnhau wrth y corff cofrestr bod hyn wedi cael ei wneud.

Wedyn mae'r corff cofrestru'n cofrestru'r dystysgrif ac yn rhoi cerdyn gwaith stryd i'r gweithredydd neu oruchwylydd cymwys a hwnnw'n dangos y cymhwyster perthnasol.

Mae'r dystysgrif yn para am 5 mlynedd, ac wedi hynny gall yr ymgeisydd gofrestru'r dystysgrif am gyfnodau dilynol pellach o 5 mlynedd ar yr amod bod cais am gofrestriad yn cael ei wneud fan bellaf o fewn tri mis i'r dyddiad y daeth y cofrestriad blaenorol i ben (rheoliad 9 yn Rheoliadau 1992).

Dros y blynyddoedd mae'r Adran Drafnidiaeth wedi cyflwyno nifer o newidiadau i'r system gymwysterau yn Lloegr, sy'n dwyn goblygiadau ar gyfer gweithredwyr a goruchwylwyr sy'n gweithio ledled y DU. Yn ddiweddar mae Transport Scotland wedi cyflwyno newidiadau sy'n cysoni'r system gymwysterau yn yr Alban â'r system yn Lloegr; felly mae'r gyfundrefn cymwysterau ar gyfer gwaith stryd yng Nghymru'n wahanol i'r gyfundrefn yn Lloegr a'r Alban. Mae hyn yn golygu nad yw cymwysterau sydd wedi cael eu hailgofrestru y tu hwnt i'w cyfnod cychwynnol o 5 mlynedd yng Nghymru'n cael eu cydnabod mwyach yn Lloegr a'r Alban.

Mae'r newidiadau yn Lloegr a'r Alban mewn 3 maes eang;

1) Tynnu Cyrff Cymeradwy penodol allan o'r rheoliadau yn Lloegr a'r ymrwymiad yn yr Alban i ystyried ceisiadau gan unrhyw sefydliad sy'n dymuno cael ei gydnabod fel Sefydliad Cymeradwy a symleiddio'r broses dyfarnu tystysgrifau;
2) Cyflwyno ailasesiad;
3) Symleiddio strwythur y cymwysterau.

**Beth ydym yn ei gynnig?**

**Cysondeb â Lloegr a'r Alban**

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad i ganfod a oes angen diwygio Rheoliadau 1992 mewn perthynas â Chymru. Mae'r pŵer i ddiwygio neu ddiddymu a disodli Rheoliadau 1992 bellach yn bŵer y gall Gweinidogion Cymru ei arfer mewn perthynas â Chymru.

Gall cysoni'r rheoliadau â Lloegr a'r Alban leihau'r baich gweinyddol ar unigolion, ymgymerwyr a chontractwyr sy'n gweithredu ar draws ffiniau gwledydd. Er enghraifft, os caiff y fframwaith rheoleiddiol ei gysoni bydd gweithredwyr a goruchwylwyr a enillodd eu cymhwyster yng Nghymru'n gallu gweithio yng Nghymru a Lloegr. Bydd hyn o fudd i'r gweithredwyr a'r goruchwylwyr hynny sy'n ennill eu cymhwyster yng Nghymru a bydd yn galluogi cwmnïau cyfleustodau i symud eu timau gwaith o amgylch i ateb y gofynion o ran llwythi gwaith gan felly ehangu'r ystod ar gyfer gweithredwyr a gorychwylwyr sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru.

Bydd cwmnïau cyfleustodau sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr yn gallu lliflinio'u rhaglenni hyfforddi a'r broses o weinyddu tystysgrifau hyfforddi gan mai dim ond ag un system y byddant yn gorfod cydymffurfio. Bydd hefyd yn sicrhau bod y canolfannau hyfforddi yng Nghymru'n gydradd â chanolfannau hyfforddi yn Lloegr a'r Alban ac yn gallu cynnig y rhaglenni hyfforddi mwyaf cyfoes.

Bydd Awdurdod Cymwysterau'r Alban yn gallu rhesymoli ei gronfa ddata achrediadau trwy redeg un system ar gyfer Lloegr, yr Alban a Chymru.

**Cwestiynau y mae gennym ddiddordeb mewn clywed eich barn ynglŷn â hwy:**

**C1) Ydych chi o'r farn y dylai'r fframwaith rheoleiddiol o ran cymwysterau gwaith stryd yng Nghymru gael ei gysoni â'r fframwaith yn Lloegr a'r Alban?**

**Dyfarnu Tystysgrifau a'r Drefn Pan Fo Tystysgrifau'n Dod i Ben**

Wedi i ymgeisydd gwblhau asesiad yn llwyddiannus rhaid hysbysu'r corff cofrestru bod tystysgrif wedi cael ei rhoi i gadarnhau llwyddiant yr ymgeisydd. Gwneir hyn yn ddigidol ac er y dylid rhoi'r tystysgrifau i'r ymgeisydd (rheoliad 3(1)(a) a 4(1)(a)) maent yn aml yn cael eu rhoi i ganolfannau asesu sy'n eu trosglwyddo i'r ymgeisydd neu i drydydd partïon megis cyflogwr yr ymgeisydd. Er nad yw'n cydymffurfio'n llwyr â'r rheoliadau mae'r broses hon yn bragmatig a hyd yma nid yw wedi achosi unrhyw broblemau. Fodd bynnag, mae adolygu'r rheoliadau'n rhoi'r cyfle inni adolygu'r broses hon.

**C2) Ydych chi o'r farn y byddai cael gwared ar y gofyniad i gorff cymeradwy ddyfarnu tystysgrifau i ymgeiswyr yn symleiddio'r broses ac yn creu mwy o hyblygrwydd o ran y ffordd yr hysbysir y corff cofrestru?**

Er mwyn osgoi oedi sy'n deillio o'r broses weinyddu sy'n gysylltiedig â chofrestru tystysgrifau fel a ddisgrifir uchod, mae rheoliad 4(1) a 3(1) yn rhoi cyfnod gras o 2 fis i'r gweithredydd a'r goruchwylydd yn eu tro wedi iddynt lwyddo yn yr arholiadau er mwyn iddynt allu gweithio fel gweithredydd neu oruchwylydd cymwys heb i'r dystysgrif fod wedi'i chofrestru.

Fodd bynnag, mae rheoliad 9(1) yn darparu bod y dystysgrif yn dod i ben 5 mlynedd ar ôl cofrestru, nid o'r dyddiad y cafodd y dystysgrif ei rhoi. Mae ychwanegu'r cyfnod gras o 2 fis at hyn i bob pwrpas yn caniatáu i'r ymgeisydd weithio fel gweithredydd neu oruchwylydd cymwys am hyd at 5 mlynedd a 2 fis ar y dystysgrif wreiddiol a oedd wedi'i bwriadu i fod yn ddilys am 5 mlynedd yn unig.

**C3) Ydych chi o'r farn y dylai tystysgrifau ddod i ben 5 mlynedd o'r dyddiad yr aseswyd fod yr ymgeisydd wedi llwyddo yn yr arholiadau yn lle'r "dyddiad cofrestru"?**

**Cyrff cymeradwy**

Mae Rheoliad 5(1) yn Rheoliadau 1992 yn enwi'r cyrff cymeradwy at ddibenion rhoi tystysgrifau cymhwysedd.

Yn unol â'r ymrwymiad yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i wella deilliannau addysgol, mae angen penderfynu a fydd agor y sector gwaith stryd i gyrff cymeradwy eraill o fudd i Gymru.

Er mwyn cynnal safon cymwysterau bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried opsiynau o ran sut y dylai ceisiadau gan gyrff sy'n gobeithio dod yn gyrff a gymeradwywyd at ddiben rhoi tystysgrifau cymhwysedd gael eu hystyried.

Mae'r opsiynau hyn yn cynnwys gofyniad bod unrhyw gais yn cael ei ystyried yn y lle cyntaf gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn ymgynghori â Phwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru a Gweithgor Hyfforddiant ac Achredu Pwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau'r DU cyn bod y cais yn cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru er mwyn iddynt hwy wneud penderfyniad ynghylch cydnabyddiaeth ffurfiol, neu ofyniad bod cyrff yn cael eu cydnabod yn ffurfiol gan Cymwysterau Cymru at ddibenion rhoi tystysgrifau cymhwysedd. Cymwysterau Cymru yw'r corff rheoleiddio ar gyfer cymwysterau heblaw graddau yng Nghymru.

**C4) Ydych chi o'r farn y dylai'r farchnad gael ei hagor fel bod cyrff heblaw'r rhai a enwir yn rheoliadau 1992 yn gallu gweithredu fel cyrff cymeradwy?**

**Ailasesu**

Cyn gwneud gwaith stryd mae angen rhai sgiliau penodol er mwyn ateb gofynion o ran diogelwch a gofynion technegol. Mae'r cyntaf o'r rhain yn sicrhau cynllun priodol o ran arwyddion, goleuadau a mesurau gwarchod wrth wneud gwaith stryd er budd a diogelwch gweithwyr stryd a defnyddwyr y ffordd ac mae'r ail yn cefnogi arferion gweithio o ansawdd da wrth gloddio a gwneud gwaith adfer.

Ar hyn o bryd, mae Rheoliadau 1992 yn datgan bod gan weithredydd neu oruchwylydd gymhwyster a ragnodir ar gyfer math arbennig o waith os yw corff cymeradwy wedi rhoi tystysgrif cymhwyster iddo sy'n dangos ei fod wedi cael ei asesu gan ganolfan asesu gymeradwy yn yr uned gymhwysedd berthnasol / unedau cymhwysedd perthnasol. Rhaid cofrestru'r dystysgrif honno yn y Gofrestr Cymwysterau Gwaith Stryd. Mae'r cofrestriad hwn yn ddilys am 5 mlynedd yn unig.

Mae Rheoliad 9 yn galluogi gweithredwyr a goruchwylwyr i gofrestru eu tystysgrifau am gyfnodau dilynol o 5 mlynedd ar yr amod eu bod yn cyflwyno'u cais i gofrestru fan bellaf dri mis ar ôl i'r cofrestriad blaenorol ddod i ben gyda ffi ailgofrestru briodol. Fodd bynnag, nid oes gofyniad i'r ymgeiswyr ddangos eu gwybodaeth na chael asesiad o'u cymhwysedd er mwyn parhau i fod yn gofrestredig.

Yn Lloegr mae system o ailasesu wedi bod yn weithredol ers 2009 ac yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr a goruchwylwyr hyfforddedig sy'n dymuno ailgofrestru eu cymwysterau gael ailasesiad o'r cymwysterau hyn. Mae hyn wedi'i fwriadu i sicrhau bod gweithredwyr a goruchwylwyr hyfforddedig wedi cynnal eu sgiliau i'r safonau gofynnol, a'u bod yn ymwybodol o newidiadau a roddwyd ar waith ers iddynt gael eu hasesu ddiwethaf.

Ar hyn o bryd nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol yng Nghymru. O ganlyniad, nid yw gweithredwyr a goruchwylwyr sydd â thystysgrifau wedi'u hailgofrestru yng Nghymru'n cael eu derbyn yn Lloegr, na'r Alban, gan nad ydynt wedi bod trwy'r broses ailasesu.

Mae ailasesu wedi'i fwriadu i wella safonau diogelwch a chydymffurfiaeth ag amodau ar gyfer gwaith gweithredol wrth wneud gwaith ar briffyrdd. Os cyflwynir y drefn yng Nghymru bydd hefyd yn dileu'r rhwystrau i weithredwyr a goruchwylwyr sy'n dymuno gweithio yn Lloegr a'r Alban a gall felly leihau beichiau gweinyddol ar gyflogwyr sy'n gweithio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Bydd cost gysylltiedig i'r cyflogwr am yr ailasesiad ac unrhyw hyfforddiant cysylltiedig. Fodd bynnag, cydnabyddir yng Nghymru bod y cwmnïau cyfleustodau'n defnyddio rhaglenni hyfforddiant diweddaru ar hyn o bryd ar gyfer y gweithredwyr a'r goruchwylwyr y maent yn eu cyflogi.

**C5a) Ydych chi o'r farn y dylid cyflwyno trefn ailasesu yng Nghymru?**

**C5b) Ydych chi o'r farn bod yr hyfforddiant presennol yn gadarn o ran sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal?**

**C5c) Ydych chi o'r farn y byddai cyflwyno proses ail-achredu ffurfiol yng Nghymru'n gwella safonau diogelwch a chydymffurfiaeth ag amodau ar gyfer gwaith gweithredol?**

**Ailgofrestru**

Wrth ystyried a ddylid cyflwyno trefn ailasesu yng Nghymru mae hefyd yn angenrheidiol rhoi ystyriaeth fanwl i'r broses ailgofrestru.

Byddai cyflwyno trefn ailasesu'n golygu nad yw'r gweithredydd neu'r goruchwylydd yn gymwys mwyach i weithio fel gweithredydd neu oruchwylydd hyfforddedig unwaith y mae'r dystysgrif cymhwysedd wedi dod i ben. Os cyflwynir hyn yng Nghymru, bydd angen i weithredwyr a goruchwylwyr raglennu eu hailgofrestriad i ganiatáu amser ar gyfer ailasesiad.

Er mwyn ei gwneud yn haws i weithredwyr a goruchwylwyr raglennu hyn, os bydd trefn ailasesu'n cael ei chyflwyno, cynigir y dylai ceisiadau i adnewyddu trwy ailasesu allu cael eu gwneud unrhyw bryd ar ôl rhoi'r dystysgrif cymhwysedd neu ailgofrestru'r dystysgrif adnewyddu.

**Ailgofrestru yn y ffenestr adnewyddu ddilynol (o fewn 12 mis i'r dyddiad y bydd y dystysgrif yn dod i ben)**

Er y gellir adnewyddu'r cofrestriad unrhyw bryd, yn ymarferol mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dewis adnewyddu eu cofrestriadau yn union cyn y dyddiad y bydd y dystysgrif yn dod i ben er mwyn peidio â cholli unrhyw amser o'u cofrestriad. Er mwyn hwyluso hyn, bydd cofrestriadau a adnewyddir o fewn 12 mis i'r dyddiad y bydd y dystysgrif flaenorol a roddwyd yn dod i ben (y ffenestr adnewyddu ddilynol) yn para am 5 mlynedd ar ôl y dyddiad yr oedd y cofrestriad blaenorol i fod i ddod i ben fel nad yw ymgeiswyr yn colli unrhyw amser o'u cofrestriad trwy adnewyddu cyn y dyddiad yr oedd y dystysgrif i fod i ddod i ben.

**Ailgofrestru'n gynnar (fwy na 12 mis cyn y dyddiad yr oedd y dystysgrif i fod i ddod i ben)**

Fel a drafodwyd uchod gall ymgeiswyr ailgofrestru hyd at 12 mis cyn y dyddiad y mae eu tystysgrif i fod i ddod i ben heb golli unrhyw amser o'u tystysgrif. Fodd bynnag, wrth i weithredydd neu oruchwylydd gamu ymlaen trwy ei yrfa mae'n debygol y byd wedi ennill gwahanol dystysgrifau ar wahanol adegau a bydd y rhain yn arwain at ddyddiadau adnewyddu amrywiol wrth i bob tystysgrif gyrraedd ei dyddiad terfyn 5 mlynedd. Felly, efallai y bydd o fudd i'r gweithredydd a'r goruchwylydd ei fod yn sicrhau bod ei dystysgrifau i gyd yn dod i ben tua'r un pryd. Byddai ailgofrestru'n gynnar yn galluogi ymgeiswyr i gael ailasesiad ar gyfer eu hamryw dystysgrifau i gyd ar yr un pryd gan fynd i ganolfan asesu unwaith yn unig bob 5 mlynedd. Yn yr un modd, dim ond unwaith bob 5 mlynedd y byddai angen cael cerdyn gwaith stryd newydd.

Lle mae ymgeisydd yn ailgofrestru yn ystod y 12 mis cyntaf ar ôl cofrestru ei dystysgrif, cynigir y bydd cyfnod cofrestru'r dystysgrif newydd yn para am 5 mlynedd o'r dyddiad y cafodd yr ymgeisydd yr ailasesiad a oedd yn cadarnhau ei fod yn gymwys. Lle mae ymgeisydd yn ailgofrestru'n gynharach na 12 mis cyn y mae tystysgrif i fod i ddod i ben ond yn ddim cynharach na 48 mis cyn hynny, bydd cyfnod cofrestru'r dystysgrif newydd yn para am 6 blynedd o'r dyddiad y cafodd yr ymgeisydd yr asesiad a oedd yn cadarnhau ei fod yn gymwys.

Yn wahanol i ailgofrestru yn y ffenestr adnewyddu ddilynol, gall ailgofrestru'n gynnar olygu bod ymgeisydd yn anfwriadol yn aberthu'r rhan o oes y dystysgrif wreiddiol a oedd heb ddod i ben, er mwyn cysoni dyddiadau terfyn fel hyn. Gallai gweithredydd neu oruchwylydd sy'n dymuno adnewyddu nifer o dystysgrifau â dyddiadau terfyn gwahanol

ddewis cael ei ailasesu yn y tystysgrifau a enillwyd yn fwy diweddar yn gynharach na'r dyddiad terfyn gwirioneddol fel bod yr holl dystysgrifau a adnewyddir yn dod i ben tua'r un pryd.

Er mwyn lleihau'r achosion o golli amser oddi ar dystysgrifau, ar gyfer unrhyw ailasesiad cyn pryd byddai'r dystysgrif newydd yn rhedeg am 6 blynedd o'r amser y cafwyd ailasesiad llwyddiannus, sef yr amser hwyaf a ganiateir uchod. Dros y tymor hwy, byddai hyn yn galluogi'r ymgeiswyr i gydlynu eu hailasesiadau'n fwy effeithiol, trwy adnewyddu un dystysgrif ar ôl y llall yn gynnar nes bod yr holl dystysgrifau'n dod i ben ar yr un pryd.

**C6) Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor o ganiatáu i ymgeiswyr ailgofrestru o fewn y ffenestr adnewyddu ddilynol ac ailgofrestru tystysgrifau'n gynnar er mwyn caniatáu amser ar gyfer ailasesu a hwyluso'r drefn o gydlynu prosesau adnewyddu'n effeithiol?**

**Ailgofrestru ar ôl y dyddiad terfyn**

Ar hyn o bryd, mae rheoliad 9(2) yn datgan y gellir ailgofrestru tystysgrifau (heb ailasesiad) am gyfnodau dilynol pellach o bum mlynedd ar yr amod bod cais am gofrestriad yn cyrraedd y corff cofrestru fan bellaf dri mis ar ôl i'r cofrestriad blaenorol ddod i ben.

Ceir tystiolaeth anecdotaidd bod hyn yn cael ei gamddehongli gan weithredwyr a goruchwylwyr, sy'n parhau i weithio ar briffyrdd heb yn wybod nad ydynt yn gymwys mwyach i weithio ar briffyrdd fel gweithredydd neu oruchwylydd hyfforddedig ar ôl i'w tystysgrif ddod i ben, gan eu bod yn ystyried mai 'cyfnod gras' yw'r ffenestr hon. Er mwyn mynd i'r afael â hyn rydym yn cynnig darparu mwy o eglurder mewn perthynas â ffenestri ailgofrestru a dyddiadau terfyn tystysgrifau.

O dan Reoliadau 1992, nid oes darpariaeth ar gyfer ailgofrestru y tu hwnt i'r cyfnod o 3 mis ar ôl i'r cofrestriad blaenorol ddod i ben. Rhaid i unrhyw un nad yw'n adnewyddu o cyn diwedd y cyfnod hwn o 3 mis fynd drwy'r broses asesu lawn eto mewn canolfan asesu gymeradwy a chael tystysgrifau cymhwysedd newydd.

Fodd bynnag, gan fod ailasesu'n sicrhau ac yn gwirio bod y gweithredydd neu'r goruchwylydd yn meddu ar yr wybodaeth ofynnol i weithio ar y briffordd, os yw trefn ailasesu'n cael ei chyflwyno, cynigir y bydd ymgeiswyr yn cael adnewyddu eu cofrestriad trwy ailasesiad hyd at 5 mlynedd wedi i'r cofrestriad blaenorol ddod i ben.

Byddai ymgeisydd sy'n methu'r ailasesiad yn dal i fod â'r opsiwn i gwblhau'r broses asesu lawn. Fodd bynnag, byddai caniatáu'r opsiwn hwn ar gyfer ailgofrestru'n ddull mwy cost-effeithiol a llai llafurus i ymgeiswyr y daeth eu tystysgrifau i ben yn y 5 mlynedd flaenorol neu sydd o bosibl yn dychwelyd at waith stryd ar ôl seibiant byr, gan ddal i sicrhau bod y lefel gymhwysedd sy'n ofynnol yn cael ei bodloni. Byddai'r dystysgrif newydd yn rhedeg am 5 mlynedd o ddyddiad yr ailasesiad llwyddiannus.

**C7a) Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor o gael gwared â'r cyfnod o 3 mis ar gyfer ailgofrestru wedi i dystysgrif ddod i ben?**

**C7b) Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor o ganiatáu i weithredwyr a goruchwylwyr y mae eu tystysgrif cymhwysedd wedi dod i ben adnewyddu trwy ailasesiad am hyd at bum mlynedd ar ôl i'r dystysgrif ddod i ben?**

## Arholiadau asesu ac ailasesu

Diben yr asesiad gwreiddiol o gymhwysedd ac ailasesiadau dilynol yw sicrhau bod gweithredwyr a goruchwylwyr yn meddu ar y lefel cymhwysedd sy'n ofynnol i gyflawni eu tasgau'n ddiogel ac yn unol â'r manylebau a rheoliadau. Rydym yn cynnig y byddai hyd tystysgrif a adnewyddwyd trwy ailsefyll yr arholiadau gwreiddiol yn cael ei drin yr un fath ag un a adnewyddwyd trwy ailasesiad. Byddai hyn yn sicrhau na fyddai unrhyw ymgeisydd sy'n dewis sefyll yr arholiad gwreiddiol mwy trylwyr yn cael ei roi dan anfantais o'i gymharu ag ymgeisydd sy'n adnewyddu trwy ailasesiad.

**C8) Ydych chi'n cytuno y dylai hyd tystysgrif a adnewyddwyd trwy sefyll yr arholiadau gwreiddiol gael ei drin yr un fath ag un a adnewyddwyd trwy ailasesiad?**

## Ailstrwythuro Cymwysterau

Mae'r system bresennol o ran tystysgrifau ac unedau'n gymhleth a lle mae trefn ailasesu wedi cael ei chyflwyno yn Lloegr a'r Alban, mae wedi amlygu anawsterau pan fo'n ofynnol adnewyddu tystysgrifau.

Mae pob tystysgrif yn cynnwys o leiaf dair uned gymhwysedd, y mae dwy ohonynt yn gyffredin i bob tystysgrif – uned 1 Lleoliad cyfarpar tanddaearol a'i osgoi (L&A), ac uned 2 Arwyddion, Goleuadau a Mesurau Gwarchod. Unedau 1 a 2 yw'r ddwy uned allweddol sy'n gysylltiedig â diogelwch ar gyfer gweithredwyr sy'n gwneud gwaith y mae'n ofynnol dryllio'r stryd ar ei gyfer.

Roedd dyblygu unedau fel hyn wedi'i fwriadu'n bennaf i sicrhau y byddai'n rhaid i'r gweithredydd gael hyfforddiant yn unedau allweddol 1 a 2 ni waeth pa dystysgrif yr oedd yn meddu arnynt o Rifau 1 i 5. Er bod yr amcan hwnnw wedi'i gyflawni, mae gan y trefniant hwn y potensial i achosi dryswch pan fo'n cael ei gymhwyso ynghyd â system o ailgofrestru trwy ailasesu a gall ganiatáu i ymgeiswyr adnewyddu unedau sydd wedi'u dyblygu heb gael eu hailasesu ynddynt sy'n mynd yn groes i'r egwyddor o sicrhau bod gan weithredwyr a goruchwylwyr gymwysterau cyfoes.

Mae strwythur yr unedau a'r tystysgrifau wedi cael ei newid yn Lloegr a'r Alban a thystysgrifau newydd wedi cael eu rhoi i weithredwyr a goruchwylwyr. Felly rydym yn ystyried a allai'r system bresennol o gymwysterau rhagnodedig sy'n dal i weithredu yng Nghymru elwa o'r un broses symleiddio, yn enwedig os cyflwynir trefn ailasesu.

Mae'r system gyfredol yn seiliedig ar 9 Uned Gymhwysedd (gweler atodlen 1) a 5 Tystysgrif Cymhwysedd (gweler atodlen 2) ar gyfer gweithredwyr ac 8 Uned Gymhwysedd (gweler atodlen 3) a 5 Tystysgrif Cymhwysedd (gweler atodlen 4) ar gyfer goruchwylwyr. Mae pob uned yn ymdrin ag agwedd benodol ar weithgarwch gwaith stryd ac mae pob tystysgrif yn cynnwys un uned neu fwy. Daw'r Tabl isod o atodlenni 1,

2, 3 a 4 wrth Reoliadau 1992 ac mae'n dangos y berthynas rhwng unedau a thystysgrifau.

| **Unedau a thystysgrifau cymhwysedd i weithredwyr** | | |
|---|---|---|
| **Rhif** | **Unedau Cymhwysedd (o Atodlen 1 Offeryn Statudol 1992 Rhif 1687 Rheoliadau Gwaith Stryd (Cymwysterau Goruchwylwyr a Gweithredwyr) 1992)** | |
| 1 | Lleoliad cyfarpar tanddaearol a'i osgoi | |
| 2 | Arwyddion, goleuadau a mesurau gwarchod | |
| 3 | Cloddio yn y briffordd | |
| 4 | Adfer a chywasgu deunyddiau cefnlenwi | |
| 5 | Adfer y gwaelod isaf a gwaelod y ffordd mewn deunyddiau anfitwminaidd | |
| 6 | Adfer mewn deunyddiau bitwminaidd oer | |
| 7 | Adfer mewn deunyddiau bitwminaidd poeth | |
| 8 | Adfer slabiau concrit | |
| 9 | Adfer wynebau modwlar a throedffyrdd concrit | |
| **Rhif** | **Tystysgrifau Cymhwysedd (o Atodlen 2)** | **Unedau gofynnol** |
| 1 | Cloddio yn y briffordd | 1, 2, 3 |
| 2 | Cloddio, cefnlenwi ac adfer haenau adeiladu ag wyneb bitwminaidd oer | 1, 2, 3, 4, 5, 6 |
| 3 | Adfer haenau adeiladu mewn deunyddiau bitwminaidd poeth ac oer | 1, 2, 6, 7 |
| 4 | Adfer slabiau concrit | 1, 2, 8 |
| 5 | Adfer wynebau modwlar a throedffyrdd concrit | 1, 2, 9 |

| **Unedau a thystysgrifau cymhwysedd i oruchwylwyr** | | |
|---|---|---|
| **Rhif** | **Unedau Cymhwysedd (o Atodlen 3 Offeryn Statudol 1992 Rhif 1687 Rheoliadau Gwaith Stryd (Cymwysterau Goruchwylwyr a Gweithredwyr) 1992)** | |
| 1 | Lleoliad cyfarpar tanddaearol a'i osgoi | |
| 10 | Monitro arwyddion, goleuadau a mesurau gwarchod | |
| 11 | Monitro cloddio yn y briffordd | |
| 12 | Monitro adfer a chywasgu deunyddiau cefnlenwi | |
| 13 | Monitro adfer y gwaelod isaf a gwaelod y ffordd mewn deunyddiau anfitwminaidd | |
| 14 | Monitro adfer mewn deunyddiau bitwminaidd | |
| 15 | Monitro adfer slabiau concrit | |
| 16 | Monitro adfer wynebau modwlar a throedffyrdd concrit | |
| **Rhif** | **Tystysgrifau Cymhwysedd (o Atodlen 4)** | **Unedau gofynnol** |

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Monitro cloddio yn y briffordd | 1, 10, 11 |
| 2 | Monitro cloddio, cefnlenwi ac adfer haenau adeiladu ag wyneb bitwminaidd oer | 1, 10, 11, 12, 13, 14 |
| 3 | Monitro adfer haenau adeiladu mewn deunyddiau bitwminaidd | 1, 10, 14 |
| 4 | Monitro adfer slabiau concrit | 1, 10, 15 |
| 5 | Monitro adfer wynebau modwlar a throedffyrdd concrit | 1, 10, 16 |

Mae pob tystysgrif yn cynnwys o leiaf dair uned, y mae dwy ohonynt (uned 1: lleoliad cyfarpar tanddaearol a'i osgoi ac uned 2: arwyddion, goleuadau a mesurau gwarchod) yn gyffredin i bob tystysgrif. Unedau 1 a 2 yw'r ddwy uned allweddol sy'n gysylltiedig â diogelwch ar gyfer gweithredwyr sy'n gwneud gwaith y mae'n ofynnol dryllio'r stryd ar ei gyfer.

Mae hyn yn sicrhau, ar gyfer yr holl waith sy'n golygu dryllio'r stryd, bod y gweithredydd neu'r goruchwylydd wedi cael hyfforddiant yn unedau 1 a 2. Fodd bynnag, mae'r cyfuniadau rhagnodedig yn golygu bod cryn dipyn o ddyblygu unedau ymhlith y tystysgrifau. Er enghraifft, os yw gweithredydd sy'n meddu ar dystysgrif Cloddio yn y briffordd (unedau 1, 2 a 3) yn ychwanegu tystysgrif Adfer slabiau concrit (unedau 1, 2 ac 8) bedair blynedd yn ddiweddarach, dim ond uned 8 y mae ar y gweithredydd ei hangen gan ei fod eisoes yn meddu ar unedau 1 a 2 o'r dystysgrif flaenorol. Gan fod y dystysgrif a ychwanegwyd yn para am 5 mlynedd, mae unedau 1 a 2 wedi cael eu hestyn yn artiffisial (heb ailasesiad) am bedair blynedd i bara trwy gydol oes y dystysgrif a ychwanegwyd. Mae hyn yn mynd yn groes i egwyddorion ailasesu trwy ganiatáu i ymgeiswyr adnewyddu unedau a ddyblygir heb gael eu hailasesu ynddynt.

Mae strwythur yr unedau a'r tystysgrifau wedi cael ei newid yn Lloegr a'r Alban gyda thystysgrifau newydd yn cael eu rhoi i weithredwyr a goruchwylwyr. Am y rheswm hwn, ac er mwyn cynnal cysondeb â'r rhanbarthau eraill sy'n defnyddio'r Gofrestr Cymwysterau Gwaith Stryd, mae angen ystyried a allai'r system bresennol o gymwysterau rhagnodedig yng Nghymru elwa o'r un broses symleiddio, yn enwedig os cyflwynir trefn ailasesu.

Mae'r system newydd hon a gyflwynwyd yn Lloegr a'r Alban yn dileu unrhyw ddyblygu rhwng unedau trwy gyflwyno tystysgrifau sy'n cyfateb ag un uned. Felly mae cynnwys pob tystysgrif yn unigryw. I bob pwrpas, mae pob un o'r naw uned gyfredol yn dystysgrif yn ei rhinwedd ei hun.

Wrth gael gwared ar unrhyw ddyblygu rhwng unedau, mae angen sicrhau bod gweithredwyr a goruchwylwyr wastad wedi'u hyfforddi yn yr unedau allweddol. I'r perwyl hwn, cynigir y byddai dal tystysgrifau mewn 1 (lleoliad cyfarpar tanddaearol a'i osgoi) a 2 (arwyddion, goleuadau a mesurau gwarchod) yn ofyniad er mwyn i unrhyw dystysgrif arall fod yn ddilys. Pe bai'r naill neu'r llall o'r tystysgrifau hyn yn dod i ben, byddai'r tystysgrifau eraill i gyd yn dod yn annilys dros dro nes bod y tystysgrifau allweddol sydd wedi dod i ben yn cael eu hadnewyddu. Mae hyn yr un fath â'r sefyllfa yn Lloegr a'r Alban.

Ar hyn o bryd, nid oes angen i weithredydd neu oruchwylydd y mae ei weithredoedd yn golygu dim mwy nag agor y stryd megis darllen mesurydd, codi gorchuddion archwilio,

a.y.b. feddu ar unrhyw dystysgrif heblaw uned 2. Cynigir y byddai hyn yn aros yr un fath.

| Cyfeirnod | Cymwysterau Newydd Arfaethedig i Weithredwyr |
|---|---|
| O1 | Arwyddion, goleuadau a mesurau gwarchod |
| O2 | Lleoliad cyfarpar tanddaearol a'i osgoi |
| O3 | Cloddio yn y briffordd |
| O4 | Adfer a chywasgu deunyddiau cefnlenwi |
| O5 | Adfer y gwaelod isaf a gwaelod y ffordd mewn deunyddiau anfitwminaidd |
| O6 | Adfer mewn deunyddiau bitwminaidd oer |
| O7 | Adfer mewn deunyddiau bitwminaidd poeth |
| O8 | Adfer slabiau concrit |
| O9 | Adfer wynebau modwlar a throedffyrdd concrit |

| Cyfeirnod | Cymwysterau Newydd Arfaethedig i Oruchwylwyr |
|---|---|
| S1 | Monitro lleoliad cyfarpar tanddaearol a'i osgoi |
| S2 | Monitro arwyddion, goleuadau a mesurau gwarchod |
| S3 | Monitro cloddio yn y briffordd |
| S4 | Monitro adfer a chywasgu deunyddiau cefnlenwi |
| S5 | Monitro adfer y gwaelod isaf a gwaelod y ffordd mewn deunyddiau anfitwminaidd |
| S6 | Monitro adfer mewn deunyddiau bitwminaidd |
| S7 | Monitro adfer slabiau concrit |
| S8 | Monitro adfer wynebau modwlar a throedffyrdd concrit |

Sylwer; mae'r tystysgrifau cymhwysedd newydd arfaethedig i weithredwyr wedi'i rhifo O1, O2 a.y.b. lle mae 'O' yn dynodi mai tystysgrif gweithredydd yw hon. Mae'r tystysgrifau cymhwysedd newydd arfaethedig i oruchwylwyr wedi'u rhifo S1, S2 a.y.b. lle mae 'S' yn dynodi mai tystysgrif goruchwylydd yw hon. Mae pob un yn seiliedig ar yr unedau cymhwysedd presennol a byddant wedi'u rhifo'r un fath ac eithrio Lleoliad cyfarpar tanddaearol a'i osgoi ac Arwyddion, goleuadau a mesurau gwarchod a fydd yn cael eu cyfnewid. Y rheswm dros hyn yw mai Arwyddion, goleuadau a mesurau gwarchod yw'r gofyniad isaf ar gyfer gweithredydd neu oruchwylydd cymwys ac y dylai felly ddod gyntaf.

Enghraifft: Bydd angen i weithredydd â thystysgrifau sydd ar fin dod i ben mewn Cloddio yn y briffordd ac Adfer mewn deunyddiau bitwminaidd poeth ac oer sy'n dymuno cael ei ailasesu gael ailasesiad mewn tystysgrifau newydd mewn O1, O2, O3, O6 ac O7 (unedau 1, 2, 3, 6 a 7 yn flaenorol). Ni fydd rhaid iddo adnewyddu nac ailsefyll tystysgrifau mewn O1 ac O2 i ychwanegu tystysgrifau pellach; byddai angen i O1 ac O2 ddal i fod yn gyfredol, dyna'r cyfan.

Bydd tystysgrif sydd wedi cael ei adnewyddu trwy ailasesiad yn meddu ar yr un statws â thystysgrif wreiddiol. Yn ymarferol nid oes gwahaniaeth; mae'r dystysgrif wreiddiol a'r tystysgrifau a roddwyd yn dilyn ailasesu'n caniatáu i weithredwyr a goruchwylwyr wneud a goruchwylio'r un gwaith yn union. Fodd bynnag, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi

hefyd i'r cwestiwn a fydd y cerdyn gwaith stryd yn cael ei anodi i ddynodi tystysgrifau a adnewyddwyd trwy ailasesu.

Gan fod y cwmnïau cyfleustodau yng Nghymru'n gweithio yn Lloegr a'r Alban hefyd, mae angen i ni ymchwilio i ganfod a oes manteision i sicrhau cysondeb trwy gyflwyno'r newidiadau hyn ac a fydd y newidiadau arfaethedig yn darparu gwelliannau i Gymru.

**C9a) Ydych chi o'r farn y dylai Cymru gyflwyno system gymwysterau newydd sy'n cyfateb â'r system yn Lloegr a'r Alban?**

**C9b) Ydych chi o'r farn y byddai cyflwyno system gymwysterau newydd sy'n cyfateb â'r system yn Lloegr a'r Alban yn dwyn manteision i Gymru?**

**C9c) Ydych chi'n cytuno y bydd cyflwyno tystysgrifau newydd sy'n cyfateb ag un uned yn atal achosion o ddyblygu unedau ac yn symleiddio'r broses gymwysterau?**

Os bydd y newidiadau arfaethedig yn cael eu gwneud, dylid nodi y cynigir y byddai cynnwys presennol yr unedau cymhwysedd yn aros yr un fath; felly er y gallai trefn yr hyfforddiant newid ychydig, byddai'r deunyddiau hyfforddi'n aros yr un fath i raddau helaeth, a byddai'r tystysgrifau newydd yn gwbl gydnaws ag unedau presennol ac, felly, â thystysgrifau presennol. Yn ystod y broses bontio, dylai gweithredwyr allu trosglwyddo'n ddi-dor i'r tystysgrifau newydd wrth i'w hen rai ddod i ben.

| **Crynodeb o'r berthynas rhwng y tystysgrifau newydd arfaethedig a'r unedau presennol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithredwyr** | | **Goruchwylwyr** | |
| Tystysgrif newydd | Uned bresennol | Tystysgrif newydd | Uned bresennol |
| O1 | Uned 2 | S1 | Uned 10 |
| O2 | Uned 1 | S2 | Uned 1 |
| O3 | Uned 3 | S3 | Uned 11 |
| O4 | Uned 4 | S4 | Uned 12 |
| O5 | Uned 5 | S5 | Uned 13 |
| O6 | Uned 6 | S6 | Uned 14 |
| O7 | Uned 7 | S7 | Uned 15 |
| O8 | Uned 8 | S8 | Uned 16 |
| O9 | Uned 9 | | |

Sylwer: mae 'gwaelod ffordd' ('roadbase') wedi cael ei newid i 'gwaelod' ('base') yn unol â'r derminoleg gyfredol.

**Esemptiad y Gwasanaethau Tân ac Achub**

Yn y gorffennol bu peth dryswch ynghylch perthnasedd (a phriodoldeb) Rheoliadau 1992 i'r Gwasanaethau Tân ac Achub pan ydynt yn cynnal gwiriadau ar hydrantau yn y stryd, ond heb ddryllio'r stryd, nac unrhyw garthffos, draen na thwnnel oddi tani na thwnelu na thyllu dan y stryd. I ddileu unrhyw amheuaeth, cynigir esemptio'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn benodol rhag gorfod cydymffurfio â Rheoliadau 1992

fel y'u diwygiwyd neu unrhyw reoliadau newydd sy'n diddymu ac yn disodli Rheoliadau 1992 ar gyfer cyflawni'r gweithgaredd hwn.

**C10) Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i esemptio'r gwasanaethau tân ac achub rhag y gofyniad i fod ag un gweithredydd hyfforddedig ar y safle lle nad yw gwaith yn golygu dryllio'r stryd nac unrhyw garthffos, draen na thwnnel oddi tani na thwnelu na thyllu dan y stryd?**